Y Llosgfynydd

Cysyniadau: **Gwrthdrawiad, goddefgarwch.**

Amcan: **Dangos fel y gall un cam drwg effeithio ar bawb.**

Cyfarpar: **Cyfres o ddominos.**
Llun o Ynys yr Iâ (Iceland).

Cyflwyniad:

● Dechrau trwy ddangos llun o Ynys yr Iâ. Cyfeirio at wahanol nodweddion sy'n perthyn i'r Ynys. Mae'r enw'n cyfleu bod yr ynys yn oer, yn enwedig yn nhymor y gaeaf. Yn yr haf bydd y dynion yn mynd allan i bysgota a'r anifeiliaid yn cael eu gadael allan i bori a'r ymwelwyr yn cyrraedd. Mae'r ymwelwyr wrth eu boddau yn gweld y ffynhonnau poethion (giserau) yn tasgu'r cawodydd cynnes o grombil y ddaear.

● Yn ystod mis Mawrth 2010 ffrwydrodd (echdorri) llosgfynydd (folcano) o'r enw EYJAFJALLAJÖKULL. (Byddwch yn ofalus iawn wrth geisio ei ynganu. Gwell fyddai ynganu y llythrennau cyntaf 'eiaf'. Mi wnawn ni alw'r mynydd yn 'Eiaf'.) Roedd bywyd wedi mynd yn ei flaen ar yr Ynys nes y ffrwydrodd 'Eiaf'.

● Ysgydwodd yr Ynys o un pen i'r llall. Dyna lle roedd lafa coch, crasboeth yn tasgu i'r awyr gan chwythu llwch a lludw chwilboeth i bob cyfeiriad. Bu'n rhaid symud pobl ac anifeiliaid i ffwrdd o'r ardal. Roedd cymylau o ludw yn gorchuddio'r awyr a'r haul ac ymddangosai pob man yn llwydaidd. Roedd y lludw poeth yn gorchuddio'r ddaear ac arogl annymunol o gwmpas ymhob man.

● Roedd yr Ynys i gyd yn anhrefn llwyr. Doedd yr awyrennau ddim yn cael mynd o'r Ynys na rhai yn gallu glanio yno rhag ofn i'r lludw wneud

niwed i beiriant yr awyrennau. Chwythodd y gwynt y lludw tua'r de o'r Ynys i'r Alban, Iwerddon, Cymru a Lloegr, yna Ewrop a hyd yn oed i gyfeiriad Affrica. Bu'r llosgfynydd yn gyfrifol am wneud niwed i gynifer o wledydd – effaith gynyddol. (Dangos hyn trwy ddymchwel y dominos – taro un a'r gweddill yn syrthio fesul un.)

Trafodaeth bellach:
O dro i dro fe allwn ni fod yn debyg i losgfynydd 'Eiaf'.

Stori:

Dowch i ni gael hanes Gwion. Mae o'n mynd yn ddeg oed. Yn aml iawn, mae Gwion mewn trwbl. Noson o'r blaen ymosododd ar ei chwaer fach am ei bod, medda fo, wedi dwyn ei gas pensiliau. Ond doedd dim o'r fath beth. Ymhen y rhawg daeth Gwion o hyd i'w gas pensiliau tu ôl i'r soffa. Bore drannoeth cyhuddodd ei fam o guddio ei ddillad pêl-droed ond pan oedd ar gychwyn i'r ysgol dyna lle roedden nhw yn ei fag ysgol.

Yna'r diwrnod wedyn yn yr ysgol roedd o mewn helynt efo'r pennaeth. Roedd rhai o'r bechgyn wedi sylwi bod ganddo gyllell yn yr ysgol ac yn ôl pob tebyg roedd wedi bygwth un o'i ffrindiau gorau, 'Os wyt ti'n mynd i ddweud wrth Mr Llewelyn, yna mi wthia i'r gyllell yma i dy fraich.'

Aeth rhai o'r bechgyn yn syth at Mr Llewelyn, y pennaeth.

'Gwion,' meddai Mr Llewelyn mewn llais awdurdodol, 'does gen i ddim dewis ond galw ar eich rhieni i ddod i'r ysgol y munud hwn. Ac os bydd angen mi fydda i'n cysylltu â'r heddlu hefyd. Mae hwn yn achos difrifol iawn, iawn.'

Treuliodd Gwion weddill y bore yn 'stafell Mr Llewelyn yn disgwyl i'w rieni gyrraedd. Roedd o'n gobeithio nad oedd yr heddlu yn mynd i gyrraedd o'u blaenau.

Trafodaeth bellach:

● Mae gweithred Gwion wedi amharu ar ei chwaer, ei rieni, ei ffrindiau yn yr ysgol, yr athrawon a hefyd yr heddlu. Mae ei ymddygiad yn union fel llosgfynydd.

● Sut mae ffrindiau Gwion yn yr ysgol yn teimlo tybed? Beth am ei rieni? A'r athrawon yn yr ysgol?

● Ydych chi'n meddwl bod y pennaeth wedi galw'r heddlu? Beth fuasech chi wedi'i wneud?

Emyn: Weithiau dwi'n gwybod: Canu Clod 405

Dyfyniad o'r Beibl:

Peidiwch â thalu drwg am ddrwg i neb. Rhufeiniaid 12:17 BCND

Munud i feddwl:

Mae heddiw'n gyfle newydd i ni wneud ffrindiau.

Myfyrdod/Gweddi:

Fel arfer mi ydw i'n ffrindiau efo pawb o'm cwmpas. Wnei di, O Dduw, fy helpu i geisio deall pam rydw i weithiau yn barod i gweryla a ffraeo ac i sylweddoli'r effaith mae hyn yn ei gael ar bobl eraill? Amen.